(1) Ni chaiff swyddog monitro na phrif swyddog cyllid awdurdod fod yn rheolwr cyngor. *Gweler* paragraff 13(b) ac (c) Atodlen 1 i Ddeddf 2000.

(1) Neither a monitoring officer nor a chief finance officer of an authority may be a council manager. *See* paragraph 13(b) and (c) of Schedule 1 to the 2000 Act.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

9 Mai 2006

9 May 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN 1

RHEOLAU SEFYDLOG YN YMWNEUD Â PHRIF SWYDDOGION

Rheoliad 3

RHAN 1

Rheolau Sefydlog Rhagnodedig

"Penodiadau"

1. Lle bwriada'r awdurdod perthnasol benodi prif swyddog (o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006), ac na fwriedir gwneud y penodiad yn unig o blith ei swyddogion presennol, rhaid iddo wneud y canlynol-

- (a) llunio datganiad yn manylu am-
 - (i) ddyletswyddau'r swyddog dan sylw, a
 - (ii) unrhyw gymwysterau neu nodweddion y ceisir eu cael yn y person a benodir;
- (b) trefnu i'r swydd gael ei hysbysebu yn y fath fodd fel y bydd yn debygol o ddod i sylw personau sy'n gymwys i ymgeisio amdani; ac
- (c) trefnu i gopi o'r datganiad a grybwyllir ym mharagraff (a) gael ei anfon at unrhyw berson sy'n gwneud cais.

2.-(1) Lle hysbysebwyd swydd yn ôl darpariaeth paragraff 1(b), rhaid i'r awdurdod perthnasol weithredu fel a ganlyn-

- (a) cyfweld yr holl ymgeiswyr cymwys am y swydd, neu
- (b) ddewis rhestr fer o'r cyfryw ymgeiswyr cymwys a chyfweld y rhai ar y rhestr fer.

(2) Lle nad ymgeisiodd unrhyw berson cymwys, neu os bydd yr awdurdod perthnasol yn ailhysbysebu'r swydd, rhaid i'r awdurdod perthnasol wneud trefniadau pellach i hysbysebu yn unol â pharagraff 1(b)."

SCHEDULE 1

STANDING ORDERS RELATING TO CHIEF OFFICERS

Regulation 3

PART 1

Prescribed Standing Orders

"Appointments"

1. Where the relevant authority proposes to appoint a chief officer (within the meaning of the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006), and it is not proposed that the appointment be made exclusively from among its existing officers, it must-

- (a) draw up a statement specifying-
 - (i) the duties of the officer concerned, and
 - (ii) any qualifications or qualities to be sought in the person to be appointed;
- (b) make arrangements for the post to be advertised in such a way as is likely to bring it to the attention of persons who are qualified to apply for it; and
- (c) make arrangements for a copy of the statement mentioned in paragraph (a) to be sent to any person on request.

2.-(1) Where a post has been advertised as provided in paragraph 1(b), the relevant authority must-

- (a) interview all qualified applicants for the post, or
- (b) select a short list of such qualified applicants and interview those included on the short list.

(2) Where no qualified person has applied, or if the relevant authority decide to re-advertise the appointment, the relevant authority may make further arrangements for advertisement in accordance with paragraph 1(b)."

RHAN 2

Amrywiadau Awdurdodedig

1. Gall y rheolau sefydlog wneud y darpariaethau canlynol-

- (a) gall y camau a gymerwyd o dan baragraff 1 neu 2 uchod gael eu cymryd gan bwyllgor, is-bwyllgor neu brif swyddog yr awdurdod perthnasol;
- (b) gellir penodi unrhyw brif swyddog gan bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod perthnasol, neu gydbwyllgor perthnasol.

2. Gall y rheolau sefydlog wneud darpariaeth, lle bo dyletswyddau prif swyddog yn cynnwys cyflawni swyddogaethau dau neu fwy o awdurdodau perthnasol yn rhinwedd adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972-

- (a) gall y camau a gymerwyd dan baragraff 1 neu 2 uchod gael eu cymryd gan gydbwyllgor yr awdurdodau perthnasol hynny, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu brif swyddog unrhyw rai o'r awdurdodau perthnasol dan sylw; a
- (b) gellir penodi unrhyw brif swyddog gan y cyfryw gydbwyllgor, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu bwyllgor neu is-bwyllgor o unrhyw rai o'r awdurdodau perthnasol hynny.

3. Gellir eithrio o gymhwyso paragraff 1 a 2-

- (a) unrhyw benodiad prif swyddog anstatudol (o fewn ystyr adran 2(7)(a) neu (b) o Ddeddf 1989), a
- (b) unrhyw benodiad yn rhinwedd adran 9 (cymhorthwyr i grwpiau gwleidyddol) y Ddeddf, ac
- (c) unrhyw benodiad yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan baragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (cymhorthydd y maer).

ATODLEN 2

RHEOLAU SEFYDLOG YN YMWNEUD Â CHYFARFODYDD A THRAFODION

Rheoliad 4

"Cofnodi pleidleisiau

1.-(1) Lle, yn union wedi cymryd pleidlais mewn cyfarfod o gorff perthnasol, bo unrhyw aelod o'r corff hwnnw yn mynnu hynny, rhaid cofnodi yng nghofnodion trafodion y cyfarfod hwnnw a fwriodd y person hwnnw bleidlais dros y cwestiwn neu yn erbyn y cwestiwn neu a ataliodd y person hwnnw rhag pleidleiso.

PART 2

Authorised Variations

1. The standing orders may provide that-

- (a) the steps taken under paragraph 1 or 2 above may be taken by a committee, sub-committee or chief officer of the relevant authority;
- (b) any chief officer may be appointed by a committee or sub-committee of the relevant authority, or a relevant joint committee.

2. The standing orders may provide that where the duties of a chief officer include the discharge of functions of two or more relevant authorities in pursuance of section 101(5) of the Local Government Act 1972-

- (a) the steps taken under paragraph 1 or 2 above may be taken by a joint committee of those relevant authorities, a sub-committee of that committee or a chief officer of any of the relevant authorities concerned; and
- (b) any chief officer may be appointed by such a joint committee, a sub-committee of that committee or a committee or sub-committee of any of those relevant authorities.

3. There may be excluded from the application of paragraph 1 and 2-

- (a) any appointment of a non-statutory chief officer (within the meaning of section 2(7)(a) or (b) of the 1989 Act), and
- (b) any appointment in pursuance of section 9 (assistants for political groups) of the Act, and
- (c) any appointment in pursuance of regulations made under paragraph 6 of Schedule 1 to the Local Government Act 2000 (mayor's assistant).

SCHEDULE 2

STANDING ORDERS RELATING TO MEETINGS AND PROCEEDINGS

Regulation 4

"Recording of votes

1.-(1) Where immediately after a vote is taken at a meeting of a relevant body any member of that body so requires, there must be recorded in the minutes of the proceedings of that meeting whether that person cast a vote for the question or against the question or whether that person abstained from voting.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "corff perthnasol" ("*relevant body*") yw'r awdurdod perthnasol, pwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod perthnasol neu gyd-bwyllgor neu is-bwyllgor perthnasol o'r cyfryw bwyllgor.

Llofnodi cofnodion- cyfarfodydd arbennig

2. Lle mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod o'r awdurdod perthnasol y bydd y cyfryw gyfarfod nesaf yn gyfarfod a elwir dan baragraff 3 (cyfarfodydd arbennig) o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid trin cyfarfod dilynol nesaf yr awdurdod perthnasol (sef cyfarfod a elwir heb fod o dan y paragraff hwnnw) fel cyfarfod addas at ddibenion paragraff 41(1) a (2) (llofnodi cofnodion) yr Atodlen honno(1)."

ATODLEN 3

Rheoliad 5(1) a 6

DARPARIAETHAU I'W HYMGORFFORI MEWN RHEOLAU SEFYDLOG YN YMWNEUD Â STAFF

RHAN 1

Awdurdod gyda Maer a Chabinet Gweithredol

"1. Yn y Rhan hon-

ystyr "aelod o'r staff" ("*member of staff*") yw rhywun a benodwyd i neu sy'n dal swydd daleidig neu gyflogaeth dan yr awdurdod;

mae i "camau disgyblu" ("*disciplinary action*") yr un ystyr ag yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006;

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(2);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(3);

mae i "maer etholedig" a "chorff gweithredol" yr un ystyr sydd i "elected mayor" ac "*executive*" yn Rhan II o Ddeddf 2000; ac

ystyr "swyddog priodol" ("*proper officer*") yw swyddog a benodwyd gan yr awdurdod at ddibenion y darpariaethau yn y Rhan hon.

(1) Diwygiwyd paragraff 41 gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).

(2) 1989 p.42.

(3) 2000 p.22.

(2) In this paragraph "relevant body" ("*Corff perthnasol*") means the relevant authority, a committee or sub-committee of the relevant authority or a relevant joint committee or sub-committee of such a committee.

Signing minutes- extraordinary meetings

2. Where in relation to any meeting of the relevant authority the next such meeting is a meeting called under paragraph 3 (extraordinary meetings) of Schedule 12 to the Local Government Act 1972, the next following meeting of the relevant authority (being a meeting called otherwise than under that paragraph) must be treated as a suitable meeting for the purposes of paragraph 41(1) and (2) (signing of minutes) of that Schedule(1)."

SCHEDULE 3

Regulation 5(1) and 6

PROVISIONS TO BE INCORPORATED IN STANDING ORDERS RELATING TO STAFF

PART 1

Authority with Mayor and Cabinet Executive

"1. In this Part-

"the 1989 Act" ("*Deddf 1989*") means the Local Government and Housing Act 1989(2);

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000(3);

"disciplinary action" ("*camau disgyblu*") has the same meaning as in the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006;

"elected mayor" ("*maer etholedig*") and "executive" ("*corff gweithredol*") have the same meaning as in Part II of the 2000 Act;

"member of staff" ("*aelod o'r staff*") means a person appointed to or holding a paid office or employment under the authority; and

"proper officer" ("*swyddog priodol*") means an officer appointed by the authority for the purposes of the provisions in this Part.

(1) Paragraph 41 is amended by paragraph 30 of Schedule 11 to the Local Government and Housing Act 1989 (c.42).

(2) 1989 c.42.

(3) 2000 c.22.

2. Yn amodol ar baragraffau 3 a 5, rhaid cyflawni swyddogaeth penodi a diswyddo aelod o staff yr awdurdod perthnasol, a chymryd camau disgyblu yn ei erbyn, ar ran yr awdurdod perthnasol, gan y swyddog a ddynodwyd dan adran 4(1) o Ddeddf 1989 (dynodiad ac adroddiadau pennaeth gwasanaeth taledig) fel pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod neu gan swyddog a enwebwyd gan bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod.

3. Nid yw paragraff 2 yn gymwys i benodi neu ddiswyddo, neu gamau disgyblu yn erbyn, y canlynol-

- (a) y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;
- (b) prif swyddog statudol o fewn ystyr adran 2(6) o Ddeddf 1989(1) (swyddi â chyfyngiad gwleidyddol);
- (c) prif swyddog anstatudol o fewn ystyr adran 2(7) o Ddeddf 1989;
- (ch) dirprwy brif swyddog o fewn ystyr adran 2(8) o Ddeddf 1989;
- (d) person a benodwyd yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1989(2) (cymhorthwyr i grwpiau gwleidyddol); neu
- (dd) person a benodwyd yn rhinwedd rheoliadau o dan baragraff 6 Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (cymhorthydd y maer);
- (e) person y mae rheoliadau a wneir o dan adran 35(4) a (5) (darpariaeth o ran penodi, disgyblu, atal dros dro a diswyddo athrawon a staff eraill mewn ysgolion a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol) o Ddeddf Addysg 2002(3) yn gymwys iddo.

4.-(1) Lle bo pwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog yn cyflawni, ar ran yr awdurdod perthnasol, swyddogaeth penodi neu ddiswyddo swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, rhaid i'r awdurdod perthnasol gymeradwyo'r penodiad hwnnw cyn cynnig y penodiad neu, pa un bynnag sy'n briodol, rhaid cymeradwyo'r diswyddo hwnnw cyn rhoi rhybudd diswyddo.

(2) Lle bo pwyllgor neu is-bwyllgor yr awdurdod perthnasol yn cyflawni, ar ran yr awdurdod perthnasol, swyddogaeth penodi neu ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraffau (a), (b), (c) neu (ch) o baragraff 3-

- (a) rhaid i o leiaf un aelod o'r corff gweithredu fod yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw; a

2. Subject to paragraphs 3 and 5, the function of appointment and dismissal of, and taking disciplinary action against, a member of staff of the relevant authority must be discharged, on behalf of the relevant authority, by the officer designated under section 4(1) of the 1989 Act (designation and reports of head of paid service) as the head of the authority's paid service or by an officer nominated by the head of the authority's paid service.

3. Paragraph 2 does not apply to the appointment or dismissal of, or disciplinary action against-

- (a) the officer designated as the head of the authority's paid service;
- (b) a statutory chief officer within the meaning of section 2(6) of the 1989 Act(1) (politically restricted posts);
- (c) a non-statutory chief officer within the meaning of section 2(7) of the 1989 Act;
- (d) a deputy chief officer within the meaning of section 2(8) of the 1989 Act;
- (e) a person appointed in pursuance of section 9 of the 1989 Act(2) (assistants for political groups);
- (f) a person appointed in pursuance of regulations under paragraph 6 of Schedule 1 to the 2000 Act (mayor's assistant); or
- (g) a person to whom regulations made under section 35(4) and (5) (provision with respect to the appointment, discipline, suspension and dismissal of teachers and other staff of schools employed by the local education authority) of the Education Act 2002(3) apply.

4.-(1) Where a committee, sub-committee or officer is discharging, on behalf of the relevant authority, the function of the appointment or dismissal of an officer designated as the head of the authority's paid service, the relevant authority must approve that appointment before an offer of appointment is made or, as the case may be, must approve that dismissal before notice of dismissal is given.

(2) Where a committee or a sub-committee of the relevant authority is discharging, on behalf of the relevant authority, the function of the appointment or dismissal of any officer referred to in sub-paragraphs (a), (b), (c) or (d) of paragraph 3-

- (a) at least one member of the executive must be a member of that committee or sub-committee; and

(1) Diwygiwyd adran 2(6) gan baragraff 95 o Atodlen 37 i Ddeddf Addysg 1996 (p.56), paragraff 3(a), (b) ac (c) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 2004 (p.31), ac Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21).

(2) Mae diwygiadau i adran 9 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) 2002 p.32.

(1) Section 2(6) was amended by paragraph 95 of Schedule 37 to the Education Act 1996 (c.56), paragraph 3(a), (b) and (c) of Schedule 2 to the Children Act 2004 (c.31), and Schedule 2 to the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21).

(2) There are amendments to section 9 which are not relevant to these Regulations.

(3) 2002 c.32.

(b) rhaid nad yw mwy na hanner aelodau o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw yn aelodau o weithrediaeth yr awdurdod perthnasol.

5. Nid oes unrhyw beth ym mharagraff 2 yn atal person rhag gweithredu fel aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd gan yr awdurdod perthnasol i ystyried apêl gan aelod o staff yr awdurdod perthnasol yn erbyn unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â diswyddo, neu gymryd camau disgyblu yn erbyn, yr aelod hwnnw o'r staff."

RHAN 2

Awdurdod gydag Arweinydd a Chabinet Gweithredol

"1. Yn y Rhan hon-

ystyr "aelod o'r staff" ("*member of staff*") yw rhywun a benodwyd i swydd neu sydd â swydd daledig neu gyflogaeth o dan yr awdurdod;

mae i "camau disgyblu" ("*disciplinary action*") yr un ystyr ag yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006;

mae gan "corff gweithredol" ("*executive*") ac "arweinydd gweithredol" ("*executive leader*") yr un ystyr ag yn Rhan II o Ddeddf 2000;

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(1);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(2);

ystyr "swyddog priodol" ("*proper officer*") yw swyddog a benodwyd gan yr awdurdod at ddibenion y darpariaethau yn y Rhan hon.

2. Yn amodol ar baragraffau 3 a 5, rhaid i swyddogaethau penodi a diswyddo, a chymryd camau disgyblu yn erbyn, aelod o staff yr awdurdod perthnasol, ar ran yr awdurdod perthnasol, gael eu cyflawni gan y swyddog a ddynodwyd o dan adran 4(1) o Ddeddf 1989 (dynodiadau ac adroddiadau pennaeth gwasanaeth taledig) fel pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod neu gan swyddog a enwebwyd gan bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod.

3. Nid yw paragraff 2 yn gymwys i benodi neu ddiswyddo, neu gamau disgyblu yn erbyn-

(a) y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(b) not more than half the members of that committee or sub-committee are to be members of the executive of the relevant authority.

5. Nothing in paragraph 2 prevents a person from serving as a member of any committee or sub-committee established by the relevant authority to consider an appeal by a member of staff of the relevant authority against any decision relating to the dismissal of, or taking disciplinary action against, that member of staff."

PART 2

Authority with Leader and Cabinet Executive

"1. In this Part-

"the 1989 Act" ("*Deddf 1989*") means the Local Government and Housing Act 1989(1);

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000(2);

"disciplinary action" ("*camau disgyblu*") has the same meaning as in the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006;

"executive" ("*corff gweithredol*") and "executive leader" ("*arweinydd gwreithredol*") have the same meaning as in Part II of the 2000 Act;

"member of staff" ("*aelod o'r staff*") means a person appointed to or holding a paid office or employment under the authority; and

"proper officer" ("*swyddog priodol*") means an officer appointed by the authority for the purposes of the provisions in this Part.

2. Subject to paragraphs 3 and 5, the function of appointment and dismissal of, and taking disciplinary action against, a member of staff of the relevant authority must be discharged, on behalf of the relevant authority, by the officer designated under section 4(1) of the 1989 Act (designation and reports of head of paid service) as the head of the authority's paid service or by an officer nominated by the head of the authority's paid service.

3. Paragraph 2 does not apply to the appointment or dismissal of, or disciplinary action against-

(a) the officer designated as the head of the authority's paid service;

(1) 1989 p.42.

(2) 2000 p.22.

(1) 1989 c.42.

(2) 2000 c.22.

- (b) prif swyddog statudol o fewn ystyr adran 2(6) o Ddeddf 1989(1) (swyddi â chyfyngiad gwleidyddol);
- (c) prif swyddog anstatudol o fewn ystyr adran 2(7) o Ddeddf 1989;
- (ch) dirprwy brif swyddog o fewn ystyr adran 2(8) o Ddeddf 1989;
- (d) person a benodwyd yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1989(2) (cymhorthwyr i grwpiau gwleidyddol); neu
- (dd) person y mae rheoliadau a wneir o dan adran 35(4) a (5) (darpariaeth o ran penodi, disgyblu, atal dros dro a diswyddo athrawon a staff eraill mewn ysgolion a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol) o Ddeddf Addysg 2002(3) yn gymwys iddo.

4.-(1) Lle bo pwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog, ar ran yr awdurdod perthnasol, yn cyflawni swyddogaeth penodi neu ddiswyddo swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, rhaid i'r awdurdod perthnasol gymeradwyo'r penodiad hwnnw cyn gwneud cynnig o benodiad neu, yn ôl y digwydd, rhaid cymeradwyo'r diswyddiad cyn rhoi rhybudd diswyddo.

(2) Lle bo pwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod perthnasol yn cyflawni, ar ran yr awdurdod perthnasol, swyddogaeth penodi neu ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), (b), (c) neu (ch) o baragraff 3-

- (a) rhaid i o leiaf un aelod o'r corff gweithredol fod yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw; a
- (b) rhaid nad yw mwy na hanner aelodau o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw yn aelodau o gorff gweithredol yr awdurdod perthnasol.

5. Nid oes unrhyw beth ym mharagraff 2 yn atal person rhag gweithredu fel aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd gan yr awdurdod perthnasol i ystyried apêl gan-

- (a) person arall yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â phenodi'r person arall hwnnw fel aelod o staff yr awdurdod perthnasol; neu
- (b) aelod o staff yr awdurdod perthnasol yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â diswyddo, neu gymryd camau disgyblu yn erbyn, yr aelod hwnnw o'r staff."

- (b) a statutory chief officer within the meaning of section 2(6) of the 1989 Act(1) (politically restricted posts);
- (c) a non-statutory chief officer within the meaning of section 2(7) of the 1989 Act;
- (d) a deputy chief officer within the meaning of section 2(8) of the 1989 Act;
- (e) a person appointed in pursuance of section 9 of the 1989 Act(2) (assistants for political groups); or
- (f) a person to whom regulations made under section 35(4) and (5) (provision with respect to the appointment, discipline, suspension and dismissal of teachers and other staff of schools employed by the local education authority) of the Education Act 2002(3) apply.

4.-(1) Where a committee, sub-committee or officer is discharging, on behalf of the relevant authority, the function of the appointment or dismissal of an officer designated as the head of the authority's paid service, the relevant authority must approve that appointment before an offer of appointment is made or, as the case may be, must approve that dismissal before notice of dismissal is given.

(2) Where a committee or a sub-committee of the relevant authority is discharging, on behalf of the relevant authority, the function of the appointment or dismissal of any officer referred to in sub-paragraph (a), (b), (c) or (d) of paragraph 3-

- (a) at least one member of the executive must be a member of that committee or sub-committee; and
- (b) not more than half of the members of that committee or sub-committee are to be members of the executive of the relevant authority.

5. Nothing in paragraph 2 prevents a person from serving as a member of any committee or sub-committee established by the relevant authority to consider an appeal by-

- (a) another person against any decision relating to the appointment of that other person as a member of staff of the relevant authority; or
- (b) a member of staff of the relevant authority against any decision relating to the dismissal of, or taking disciplinary action against, that member of staff."

(1) Diwygiwyd adran 2(6) gan baragraff 95 o Atodlen 37 i Ddeddf Addysg 1996 (p.56), paragraff 3(a), (b) ac (c) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 2004 (p.31), ac Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21).

(2) Mae diwygiadau i adran 9 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) 2002 p.32.

(1) Section 2(6) was amended by paragraph 95 of Schedule 37 to the Education Act 1996 (c. 56), paragraph 3(a), (b) and (c) of Schedule 2 to the Children Act 2004 (c.31), and Schedule 2 to the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21).

(2) There are amendments to section 9 which are not relevant to these Regulations.

(3) 2002 c.32.

RHAN 3

Awdurdod gyda Maer a Rheolwr Gweithredol y
Cyngor

"1. Yn y Rhan hon-

ystyr "aelod o'r staff" ("*member of staff*") yw rhywun a benodwyd i swydd neu sydd â swydd daledig neu gyflogaeth dan yr awdurdod perthnasol;

mae i "camau disgyblu" yr un ystyr sydd i "*disciplinary action*" yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(); ac

mae i "reolwr cyngor" yr un ystyr sydd i "*council manager*" yn adran 11(4)(b) o Ddeddf 2000.

2. Yn amodol ar baragraffau 3 a 4, rhaid i swyddogaeth penodi a diswyddo, a chymryd camau disgyblu yn erbyn, aelod o staff yr awdurdod perthnasol gael ei chyflawni, ar ran yr awdurdod perthnasol, gan reolwr y cyngor neu gan swyddog a enwebwyd gan reolwr y cyngor.

3. Ni fydd paragraff 2 yn gymwys i benodi neu ddiswyddo, neu gamau disgyblu yn erbyn-

- (a) rheolwr y cyngor(2);
- (b) rhywun a benodwyd yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(3) (cymhorthwyr i grwpiau gwleidyddol); neu
- (c) rhywun a benodwyd yn rhinwedd rheoliadau dan baragraff 6 Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (cymhorthydd y maer); neu
- (ch) person y mae Rheoliadau a wneir o dan adran 35(4) a (5) (darpariaeth o ran penodi, disgyblu, atal dros dro a diswyddo athrawon a staff eraill mewn ysgolion a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol) o Ddeddf Addysg 2002(4) yn gymwys iddo.

4. Nid oes dim ym mharagraff 2 yn atal person rhag gwasanaethu fel aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd gan yr awdurdod perthnasol i ystyried apêl gan aelod o staff yr awdurdod perthnasol yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â diswyddo, neu gymryd camau disgyblu yn erbyn, yr aelod hwnnw o'r staff."

PART 3

Authority with Mayor and Council Manager
Executive

"1. In this Part-

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000(1);

"council manager" ("*reolwr cyngor*") has the same meaning as in section 11(4)(b) of the 2000 Act;

"disciplinary action" ("*camau disgyblu*") has the same meaning as in the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006; and

"member of staff" ("*aelod o'r staff*") means a person appointed to or holding a paid office or employment under the relevant authority.

2. Subject to paragraphs 3 and 4, the function of appointment and dismissal of, and taking disciplinary action against, a member of staff of the relevant authority must be discharged, on behalf of the relevant authority, by the council manager or by an officer nominated by the council manager.

3. Paragraph 2 does not apply to the appointment or dismissal of, or disciplinary action against-

- (a) the council manager(2);
- (b) a person appointed in pursuance of section 9 of the Local Government and Housing 1989 Act(3) (assistants for political groups);
- (c) a person appointed in pursuance of regulations under paragraph 6 of Schedule 1 to the 2000 Act (mayor's assistant); or
- (d) a person to whom regulations made under section 35(4) and (5) (provision with respect to the appointment, discipline, suspension and dismissal of teachers and other staff of schools employed by the local education authority) of the Education Act 2002(4) apply.

4. Nothing in paragraph 2 prevents a person from serving as a member of any committee or sub-committee established by the relevant authority to consider an appeal by a member of staff of the relevant authority against any decision relating to the dismissal or, or taking disciplinary action against, that member of staff."

(1) 2000 p.22.

(2) Penodir rheolwr y cyngor i'r corf gweithredu gan yr awdurdod. *Gweler* adran 11(4)(b) a (10) o Ddeddf 2000.

(3) 1989 p.42. Mae diwygiadau i adran 9 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) 2002 p.32.

(1) 2000 c.22.

(2) The council manager is appointed to the executive by the authority. *See* section 11(4)(b) and (10) of the 2000 Act.

(3) 1989 c.42. There are amendments to section 9 which are not relevant to these Regulations.

(4) 2002 c.32.

Awdurdod sy'n Gweithredu Trefniadau Amgen

"1. Yn y Rhan hon-

ystyr "aelod o'r staff" ("*member of staff*") yw rhywun a benodwyd i neu sydd â swydd daledig neu gyflogaeth dan yr awdurdod;

mae i "camau disgyblu" ("*disciplinary action*") yr un ystyr ag yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006; ac

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(1).

2. Yn amodol ar baragraffau 3 a 5, rhaid i swyddogaeth penodi a diswyddo, a chymryd camau disgyblu yn erbyn, aelod o staff yr awdurdod perthnasol, ar ran yr awdurdod perthnasol, gael ei chyflawni gan y swyddog a ddynodwyd o dan adran 4(1) o Ddeddf 1989 (dynodiadau ac adroddiadau pennaeth gwasanaeth taledig) fel pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod neu gan swyddog a enwebwyd gan bennaeth gwasanaeth yr awdurdod.

3. Nid yw paragraff 2 yn gymwys i benodi neu ddiswyddo, neu gamau disgyblu yn erbyn-

- (a) y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;
- (b) prif swyddog statudol o fewn ystyr adran 2(6) o Ddeddf 1989(2) (swyddi â chyfyngiad gwleidyddol);
- (c) prif swyddog anstatudol o fewn ystyr adran 2(7) o Ddeddf 1989;
- (ch) dirprwy brif swyddog yn ystyr adran 2(8) o Ddeddf 1989; neu
- (d) person a benodwyd yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1989(3) (cymhorthwyr i grwpiau gwleidyddol); neu
- (dd) person y mae rheoliadau a wneir o dan adran 35(4) a (5) (darpariaeth o ran penodi, disgyblu, atal dros dro a diswyddo athrawon a staff eraill mewn ysgolion a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol) o Ddeddf Addysg 2002(4) yn gymwys iddo.

Authority Operating Alternative Arrangements

"1. In this Part-

"the 1989 Act" ("*Deddf 1989*") means the Local Government and Housing Act 1989(1);

"disciplinary action" ("*camau disgyblu*") has the same meaning as in the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006; and

"member of staff" ("*aelod o'r staff*") means a person appointed to or holding a paid office or employment under the authority.

2. Subject to paragraphs 3 and 5, the function of appointment and dismissal of, and taking disciplinary action against, a member of staff of the relevant authority must be discharged, on behalf of the relevant authority, by the officer designated under section 4(1) of the 1989 Act (designation and reports of head of paid service) as the head of the authority's paid service or by an officer nominated by the head of the authority's service.

3. Paragraph 2 does not apply to the appointment or dismissal of, or disciplinary action against-

- (a) the officer designated as the head of the authority's paid service;
- (b) a statutory chief officer within the meaning of section 2(6) of the 1989 Act(2) (politically restricted posts);
- (c) a non-statutory chief officer within the meaning of section 2(7) of the 1989 Act;
- (d) a deputy chief officer within the meaning of section 2(8) of the 1989 Act;
- (e) a person appointed in pursuance of section 9 of the 1989 Act(3) (assistants for political groups); or
- (f) a person to whom regulations made under section 35(4) and (5) (provision with respect to the appointment, discipline, suspension and dismissal of teachers and other staff of schools employed by the local education authority) of the Education Act 2002(4) apply.

(1) 1989 p.42.

(2) Diwygiwyd adran 2(6) gan baragraff 95 o Atodlen 37 i Ddeddf Addysg 1996 (p.56), paragraff 3(a), (b) ac (c) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 2004 (p.31), ac Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21).

(3) Mae diwygiadau i adran 9 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) 2002 p.32.

(1) 1989 c.42.

(2) Section 2(6) was amended by paragraph 95 of Schedule 37 to the Education Act 1996 (c.56), paragraph 3(a), (b) and (c) of Schedule 2 to the Children Act 2004 (c. 31), and Schedule 2 to the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21).

(3) There are amendments to section 9 which are not relevant to these Regulations.

(4) 2002 c.32.

4. Lle bo pwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog, ar ran yr awdurdod perthnasol, yn cyflawni swyddogaeth penodi neu ddiswyddo swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, rhaid i'r awdurdod perthnasol gymeradwyo'r penodiad hwnnw cyn gwneud cynnig o benodiad neu, pa un bynnag sy'n briodol, rhaid cymeradwyo'r diswyddo cyn rhoi rhybudd diswyddo.

5. Nid oes dim ym mharagraff 2 yn atal person rhag gwasanaethu fel aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd gan yr awdurdod perthnasol i ystyried apêl gan aelod o staff yr awdurdod perthnasol yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â diswyddo, neu gymryd camau disgyblu yn erbyn, yr aelod hwnnw o'r staff."

ATODLEN 4

Rheoliad 8

DARPARIAETHAU I'W HYMGORFFORI YN Y RHEOLAU SEFYDLOG PARTHED CAMAU DISGYBLU

"1. Ym mharagraff 2, mae i "prif swyddog cyllid" ("*chief finance officer*"), "rheolwr cyngor" ("*council manager*"), "camau disgyblu" ("*disciplinary action*"), "pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod" ("*head of the authority's paid service*") a "swyddog monitro" ("*monitoring officer*"), yr un ystyr ag yn rheoliad 2 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 ac y mae i "person annibynnol dynodedig" ("*designated independent person*") yr un ystyr ag yn rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny.

2. Ni ellir cymryd camau disgyblu parthed pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod (oni fo pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod hefyd yn rheolwr cyngor yr awdurdod), ei swyddog monitro neu ei brif swyddog cyllid, ac eithrio camau a ddisgrifir ym mharagraff 3, gan yr awdurdod perthnasol, neu gan bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor lle cynrychiolir yr awdurdod perthnasol neu gan unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol, ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan berson annibynnol dynodedig dan reoliad 9 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (ymchwilio i gamymddwyn honedig).

3. Y cam a grybwyllir ym mharagraff 2 yw atal dros dro y swyddog at ddibenion ymchwilio i'r camymddwyn honedig sy'n peri'r cam hwn; rhaid i unrhyw atal dros dro o'r fath fod ar gyflog llawn, a rhaid iddo derfynu ddim hwyrach nac ar derfyn dau fis yn cychwyn ar y diwrnod y daw'r atal dros dro i rym."

4. Where a committee, sub-committee or officer is discharging, on behalf of the relevant authority, the function of the appointment or dismissal of an officer designated as the head of the authority's paid service, the relevant authority must approve that appointment before an offer of appointment is made or, as the case may be, must approve that dismissal before notice of dismissal is given.

5. Nothing in paragraph 2 prevents a person from serving as a member of any committee or sub-committee established by the relevant authority to consider an appeal by a member of staff of the relevant authority against any decision relating to the dismissal of, or taking disciplinary action against, that member of staff."

SCHEDULE 4

Regulation 8

PROVISIONS TO BE INCORPORATED IN STANDING ORDERS IN RESPECT OF DISCIPLINARY ACTION

"1. In paragraph 2, "chief finance officer" ("*prif swyddog cyllid*"), "council manager" ("*rheolwr cyngor*"), "disciplinary action" ("*camau disgyblu*"), "head of the authority's paid service" ("*pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod*") and "monitoring officer" ("*swyddog monitro*"), have the same meaning as in regulation 2 of the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 and "designated independent person" ("*person annibynnol dynodedig*") has the same meaning as in regulation 9 of those Regulations.

2. No disciplinary action (other than action to which paragraph 3 applies) in respect of the head of the authority's paid service (unless the head of the authority's paid service is also a council manager of the relevant authority), its monitoring officer or its chief finance officer, may be taken by the relevant authority, or by a committee, a sub-committee, a joint committee on which the relevant authority is represented or any other person acting on behalf of the relevant authority, other than in accordance with a recommendation in a report made by a designated independent person under regulation 9 of the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 (investigation of alleged misconduct).

3. The action to which this paragraph applies is suspension of the officer for the purpose of investigating the alleged misconduct occasioning the action; provided such suspension is on full pay and terminates no later than the expiry of two months beginning on the day on which the suspension takes effect."

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1275 (Cy.121)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1275 (W.121)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Authorities (Standing
Orders) (Wales) Regulations 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£4.00

W301/05/06

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ON